**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

9 Awst 2024

Annwyl Huw,

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – adborth gan randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru**

Yn ystod ymweliad y Pwyllgor â Sioe Frenhinol Cymru, mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch gwaith Gweithgorau Rhanddeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er enghraifft, clywsom bryderon ynghylch y gweithgor newydd-ddyfodiaid. Nodwyd bod cofnodion yn cael eu dosbarthu yn dilyn cyfarfodydd i ddechrau ond bod hyn wedi dod i ben yn raddol ac na chytunwyd ar unrhyw argymhellion neu adroddiad terfynol ac na chafodd unrhyw beth ei gyhoeddi. Yr adborth oedd bod aelodau o'r grŵp yn amlwg yn siomedig.

Gan adeiladu ar argymhellion un a dau yn adroddiad Gorffennaf y Pwyllgor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n gofyn am sicrwydd, hoffwn eich annog hefyd i gyhoeddi nodyn o bob un o gyfarfodydd y Gweithgorau Rhanddeiliaid ac adroddiad cyffredinol yn ymdrin â chanfyddiadau pob grŵp. Rwy'n siŵr y byddai rhanddeiliaid yn croesawu'r gwaith hwn ac y byddai'n sicr yn helpu i sicrhau tryloywder ac yn helpu'r rhai sy'n dilyn datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddeall y broses.

Clywsom bryderon hefyd ynghylch gweithrediad y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon. Awgrymodd rhanddeiliaid fod rhai materion yn ymwneud â chytuno ar ba arbenigwyr y gellid eu gwahodd a chlywsom hefyd fod yr amserlen ar gyfer casglu tystiolaeth yn achosi problemau i rai rhanddeiliaid. A fyddech cystal â rhannu eich barn am hynt gwaith y grŵp hwn, ac unrhyw gamau y gallwch eu cymryd i ddatrys y problemau y deallwn ei fod yn eu hwynebu?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych am y materion pwysig hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Senedd Cymru
Welsh Parliament